

IONAWR 2013

BLWYDDYN NEWYDD DDA!

Presnoldeb a phrydlondeb

Yn Ysgol Pentreuchaf, rydym yn gystried presnoldeb a phrydlondeb yn bethau pwysig iawn – er mwyn i'ch plentyn/plant fantzisiô'n llawn ar addysg a bywyd yr ysgol. **Mae'n bwysig bod y plant yma'n rhwolaidd erbyn 8.55** er mwyn egehwn ar ddiwrnod cyffrous arall yn brydlon am 9.00!

Rydym, wrth gwrs, yn ddaill bod plant yn sâl neu'n methu dod i'r ysgol am resymau eraill yn aehlgysurol. Pan fo hyn yn digwydd, **a fuasch cystal a ffonio'r ysgol a gadagl neges os gwelwch yn dda a danfon nodyn ysgrifenedig pan mae eich plentyn/plant yn dgehwelgd.**

YR YSGOL SYDD A CHYFRIFOLDEB DROS EICH PLENTYN/PLANT O 8.50yb YMLAEN



Adran ddiogel Gwefan Ysgol
www.ysgolpentreuchaf.org

Er mwyn gweld llythyrau, lluniau a'r wal fideo, mae'n rhaid rieni ddefnyddio cyfrinair arbennig er mwyn cael mynediad:-

PWYSIG - Negeseuon Testun

Yn ein hymdrech i arbed arian (a choed!) byddwn yn anfon negeseuon testun. Felly, os na ydych wedi derbyn negeseuon gan 'ysgolpentre' hyd yma, **a fuasch cystal a rhoi gwybod i ni beth yw eich rhif ffôn symudol cyn gynted a phosib os gwelwch yn dda.**

Dyddiadau i'r dyddiadur

- **10/01/13** – Nyrs Ysgol yn pwyso a mesur plant ydosbarth Derbyn!
- **18/01/13** – Taith Blwyddyn 5/6 – Yr Ysgwrn, Trawsfynydd.
- **22/01/13** – Myrddin ap Dafydd yn cynnal gweithdai barddonol Bl 5/6
- **01/02/13** – **HMS – DIM YSGOL**
- **11/02/13** – **15/02/13** – gwyliau hanner tymor
- **20/01/13** – **21/01/13** – Taith preswyl Blwyddyn 3/4 Glan-Llyn (mwy o wybodaeth i ddilyn erbyn diwedd yr wythnos)
- **?/03/13** – Eisteddfod Gadeiriol Ysgol Pentreuchaf! (mwy o wybodaeth i ddilyn)
- **18/03/13 a 19/03/13** – Nosweithiau Rhieni

Cofiwch wyllo allan am fwy o ddyddiadau pwysig mewn llythyrau ac ar ddyddiadur gwefan yr ysgol!

Arian mewn amlen

Gofynnwn yn garedig i chi roi unrhyw arian mewn amlenni ar wahân a nodi arno beth rydych yn ei dalu, enw eich plentyn a'i ddsbarth.

Teithiau Addysgol

- Dosbarth Mrs Roberts a Mrs Jones – Teithiau Lleol i'r Goedwig
- Dosbarth Mrs Humphreys – Gweithgareddau Awyr Agored – Glan Llyn
- Dosbarth Mr Thomas – Yr Ysgwrn, Cartref Hedd Wyn, Trawsfynydd.

Os oes angen manylion ychwanegol arnoch, neu os ydych eisiau trafod unrhyw agwedd o fywyd ysgol eich plentyn/plant, rydym yn barod iawn i gael sgwrs â chwi.

Yn gywir,
Gethin Elis Thomas